Cyngor Celfyddydau Cymru

# Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 - Polisi Codi Tâl

Gorffennaf 2019

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Gorffennaf 2019

# Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 - Polisi Codi Tâl

O dan ddeddfwriaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (y Ddeddf) a'n rhwymedigaethau fel elusen gofrestredig, mae'n bosibl y bydd achosion pan fydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn codi tâl am wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i gais. Nid yw Cyngor y Celfyddydau o dan orfodaeth i ymateb i gais ysgrifenedig am wybodaeth lle y bydd o'r farn y bydd y gost o gydymffurfio â'r cais yn costio mwy na £450 (uchafswm priodol"). Fodd bynnag, fel rhan o'n "dyletswydd i helpu", byddem yn trin yr amgylchiadau hyn fel rhai eithriadol ac yn yr achosion hyn byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd o faint o wybodaeth y gellid ei darparu o fewn yr "uchafswm priodol" a thrafod p'un a fyddai'n well ganddo addasu'r cais er mwyn lleihau'r gost.

Mae'r polisi'n nodi amgylchiadau lle y codir tâl, a'r broses y byddwn yn ei mabwysiadu wrth gyfrifo, cyfathrebu a chodi'r tâl.

## Tâl sy'n briodol i bob cais

Byddai hyn yn ymwneud â'r gost o gyfathrebu'r wybodaeth i'r ymgeisydd h.y. y gost o atgynhyrchu'r wybodaeth, cost cludiant a ffyrdd eraill o roi'r wybodaeth fel y nodwyd gan yr ymgeisydd cyn belled â'i fod yn ymarferol. Byddwn yn rhoi dadansoddiad manwl o'r taliadau yn seiliedig ar y wybodaeth isod ac yn rhoi rhybudd o'r ffi i'r ymgeisydd. Byddwn hefyd yn hysbysu'r ymgeisydd o ran faint o wybodaeth y gellir ei rhoi am ddim, a rhoi cymorth os bydd yr ymgeisydd am addasu'r cais. Os na chaiff y cais ei addasu, mae gan yr ymgeisydd dri mis i dalu'r ffi, ac yn ystod y cyfnod hwnnw nid yw'r rheol o ran ymateb i gais o fewn 20 diwrnod yn berthnasol. Ni fyddwn o dan orfodaeth i gydymffurfio ag unrhyw geisiadau tan ein bod wedi derbyn y taliad llawn. Os na thelir o fewn y tri mis a nodwyd, byddwn yn cau'r cais.
Fodd bynnag, byddwn yn ildio'r ffi os bydd y cyfanswm yn llai na £10.

## Ceisiadau y rhagwelir y byddant yn fwy na'r "uchafswm priodol" (£450)

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Cyngor y Celfyddydau yn cydymffurfio â chais ysgrifenedig am wybodaeth a fyddai'n costio mwy na £450. Fodd bynnag, fel elusen gofrestredig, rydym yn ystyried ei bod yn briodol adennill y costau yr eir iddynt. Felly, mewn achosion o'r fath ac o dan delerau'r Ddeddf, byddem yn codi tâl am y canlynol

1. Cost amcangyfrifedig amser staff i ddod o hyd i'r wybodaeth a'i choladu. Byddai hyn yn cael ei gyfrifo yn ôl £25 yr awr, sef y gyfradd ddynodol a awgrymwyd at ddibenion y Ddeddf.
2. Cost trosglwyddo'r wybodaeth i'r ymgeisydd fel y nodwyd yn yr adran uchod. Bydd hyn yn cynnwys cyfraddau gwasanaeth staff h.y. nifer yr oriau y byddai eu hangen i wasanaethu lle y bydd yr ymgeisydd neu natur y cais yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gael mynediad i'r ffeiliau o dan sylw.

Gorffennaf 2019

Dyma ddadansoddiad o bwynt 1:

Amser staff, wedi'i gyfrifo yn ôl cyfradd o £25 yr awr, sy'n cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Penderfynu a yw'r wybodaeth yn cael ei chadw
- Dod o hyd i'r wybodaeth neu'r ddogfen/dogfennau a allai gynnwys y wybodaeth
- Adalw'r wybodaeth neu'r ddogfen/dogfennau a allai gynnwys y wybodaeth
- Dethol y wybodaeth o'r ddogfen/dogfennau (yn cynnwys golygu neu ailolygu gwybodaeth).

Ni chodir tâl am yr amser a gymerwyd i ystyried p'un a yw'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag datgeliad o dan y Ddeddf. Pan ofynnir i ni ddarparu gwybodaeth sydd hefyd ar gael gan gorff nad yw'n gorff cyhoeddus, caiff TAW ei ychwanegu i'r gost derfynol, yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

## Ceisiadau dilynol

Pan ddarperir y wybodaeth ar ôl i'r ymgeisydd dalu'r taliad yn llawn o fewn y cyfnod o 3 mis, caiff unrhyw gais dilynol gan yr ymgeisydd ei drin ar wahân i'r cais gwreiddiol, a bydd yn ddarostyngedig i dâl fel y bo'n briodol i natur y cais.

## Ceisiadau lluosog

Os bydd Cyngor Celfyddydau Cymry yn derbyn dau gais perthynol o fewn cyfnod o 60 diwrnod gwaith dilynol, gan berson sy'n ymddangos ei fod yn gweithredu fel rhan o ymgyrch, o dan y Ddeddf bydd y gost o gydymffurfio â'r ceisiadau yn cael eu cronni. Os bydd cyfanswm amcangyfrifedig y gost o gydymffurfio â'r ceisiadau yn uwch na £450, bydd y polisi priodol a nodwyd uchod yn gymwys.

## Adolygiad

Adolygwyd a chymeradwywyd y polisi hwn ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2019 ac mae'n destun adolygiad bob 3 mlynedd neu'n gynharach os bydd amgylchiadau'n mynnu hynny.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r polisi hwn at:

Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Chydymffurfiaeth
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL

Gellir dod o hyd i arweiniad pellach ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)